TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# YMCA Dyfarniad mewn Cymorth Cyntaf yn y Gwaith Lefel 3



**Yn gryno**

Nod y cymhwyster hwn yw cydnabod y sgiliau, y wybodaeth a'r cymwyseddau sydd eu hangen ar unigolyn i roi cymorth cyntaf brys yn y gweithle. Mae hyn yn cynnwys gallu asesu, diagnosio a thrin pobl sydd wedi cael eu hanafu cyn i staff sydd wedi cael hyfforddiant meddygol gyrraedd.

**Dyma'r cwrs i chi os...**

Rydych chi eisiau bod yn Swyddog Cymorth Cyntaf cymwysedig yn y gweithle. Mae'r cwrs hwn yn cynnwys cymorth cyntaf brys yn y gweithle ac Adnabod a rheoli salwch ac anafiadau yn y gweithle.

**Beth fyddaf yn ei wneud?**

Mae'r cwrs yn cynnwys cymysgedd o daflenni gwaith a sgiliau ymarferol.

Dros 3 diwrnod, mae'r cwrs hwn yn ymdrin ag ystod eang o bynciau gan gynnwys:

Coleg Gwent

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Rolau a chyfrifoldebau'r Swyddog Cymorth Cyntaf
Asesu digwyddiad
Adnabod arwyddion a symptomau anaf a salwch
Helpu claf sy'n dioddef o anaf a salwch difrifol
Adfywio oedolion - CPR a defnyddio AED diffibriliwr
Anafiadau i'r Asgwrn Cefn
Anafiadau / ymosodiadau cemegol
Adwaith alergaidd gan gynnwys anaffylacsis
Ysigiadau, straen a dadleoliadau
Asthma
Llosgiadau a sgaldiadau
Trawiad ar y galon ac angina
Anafiadau i'r pen
Mân waedu a gwaedu difrifol

Byddwch yn cael asesiad ymarferol o gymhwysedd, a bydd angen darparu ymatebion byr i gyfres ragnodedig o gwestiynau. Ar ôl ei gwblhau'n llwyddiannus, byddwch yn cael Tystysgrif Cymorth Cyntaf yn y Gwaith. Bydd y cymhwyster yn ddilys am 3 blynedd.

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

Mae angen presenoldeb llawn am 3 diwrnod y cwrs.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Mae'r Tystysgrifau Cymorth Cyntaf yn y Gwaith yn ddilys am 3 blynedd.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Mae'r cwrs hwn ar gael fel cymhwyster dydd ac fel cymhwyster gyda'r nos.